**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2021 trwy Zoom**

PRESENNOL

Cynrychiolwyr y Cyflogwr:
Y Cynghorydd Simon Glyn
Gareth Owens, Dirprwy Glerc

Cynrychiolwyr y Gweithwyr:
Richard Fairhead, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân - Prospect, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Tim Lloyd, Undeb y Brigadau Tân
Bob Mason, Cymdeithas y Swyddogion Tân
Duncan Stewart-Ball, Undeb y Brigadau Tân

Ymgynghorwyr
Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Julie Brown, Rheolwr Pensiynau
Martin Morgan, Cronfa Bensiwn Dyfed

Cofnodydd
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt yr Aelodau

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Bryan Apsley
Y Cynghorydd John B Hughes
Ken Finch, Trysorydd
Jane Honey, Cymdeithas y Swyddogion Tân

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Dim.

3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Awst 2021 eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

4 CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD DIWEDDARU

4.1 Bu'r Rheolwr Pensiynau'n arwain Aelodau drwy'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r aelodau am aelodaeth y cynllun, ynghyd â'r diweddaraf am:

- Sganio Gorwelion
- Cyfarfod Grŵp Pensiwn Swyddogion Tân Rhanbarth y Gogledd-orllewin
- Sargeant – Achosion Niwed Uniongyrchol

- Trosolwg o Gylchlythyrau a Bwletinau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FPS)

4.2 Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am lefelau cyfredol aelodau cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân. Nodwyd, o fis Medi 2021, bod 56 o weithwyr heb eu cofrestru ar gynllun pensiwn diffoddwyr tân. Mae hyn yn cynnwys 14 o weithwyr amser cyflawn a 42 o weithwyr dyletswydd rhan amser.

4.3 Atgoffwyd yr aelodau bod un gŵyn yn cael ei hystyried ar hyn o bryd gan yr Ombwdsmon Pensiynau (OP). Roedd y Rheolwr Pensiynau wedi cael cyngor gan yr OP y byddai'r gŵyn yn cael ei rhoi gerbron dyfarnwr a bod yr amserlen ar gyfer gwneud penderfyniad rhwng tri a phedwar mis.

4.5 **Sganio Gorwelion – Gwasanaeth Rheoli Cynlluniau Pensiwn CThEM** – nodwyd, ar gais Gwasanaeth CThEM, fod y Gwasanaeth yn cymryd camau i gofrestru ar y gwasanaeth Rheoli Cynlluniau Pensiwn, a fydd ar gael o 19/10/21. Fodd bynnag, hyd yma mae cael mynediad i borth CThEM yn profi'n anodd ac mae'r Gwasanaeth wrthi'n trafod hyn â CThEM er mwyn datrys y mater.

4.6 Bydd y gwasanaeth Rheoli Cynlluniau Pensiwn newydd yn cymryd lle'r gwasanaeth Cynlluniau Pensiwn Ar-lein a ddefnyddir ar hyn o bryd. Bydd hyn yn caniatáu i Weinyddwyr y Cynllun Pensiwn weld pa gynllun(iau) pensiwn sy'n gymwys i gael eu symud, darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am eu cynllun(iau) pensiwn a'u symud i'r Gwasanaeth a chyfrifo ffeiliau ar gyfer ffurflenni treth ar gyfer eu cynlluniau pensiwn (gan ddisodli'r gwasanaeth presennol) o Wanwyn 2022.

4.7 **Diweddariad Swyddog Pensiynau Tân Rhanbarthol Gogledd Orllewin Lloegr (NWRPOG) –** Mae NWRPOG yn cynnwys cynrychiolwyr pensiwn o Swydd Gaer, Cumbria, Swydd Gaerhirfryn, Glannau Merswy a Gogledd Cymru. Nod y cyfarfodydd yw rhoi diweddariadau, cynnig cymorth, a rhannu syniadau a phrofiadau. Cadeirydd y cyfarfodydd yw Rheolwr Technegol gweinyddiaeth y Bartneriaeth Pensiynau Lleol ac fe'u cynhelir yn chwarterol.

4.8 Cyfarfu'r NWRFPOG trwy Zoom ar y 22/09/21 ac yn ystod y cyfarfod rhoddodd Uwch Gynghorydd Tân y Gymdeithas Llywodraeth Leol ddiweddariad ar y materion cyfredol yn ymwneud â Phensiwn y Diffoddwyr Tân. Ar ôl cael crynodeb o gynnwys bwletinau Pensiwn y Diffoddwyr Tân dros y chwarter diwethaf roedd y ffocws ar Adferiad Trosiannol.

4.9 O ran yr adferiad, dywedwyd wrth y grŵp y byddai llythyrau templed yn cael eu cyhoeddi gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL) o fewn

yr wythnos. Byddai llythyrau a phecynnau wedi'u cynhyrchu gan Fanceinion Fwyaf hefyd yn cael eu rhannu â'r grŵp.

**4.10** **Sargeant – Canllawiau Niwed Uniongyrchol** – Yn ystod cyfarfod yr Awdurdod Tân ym mis Medi cafwyd cymeradwyaeth i gymhwyso Adran 61 o'r Ddeddf Cydraddoldeb i achosion niwed uniongyrchol yn amodol ar dderbyn y fframwaith CLlL/Undeb y Brigadau Tân. Mae gweinyddwr y cynllun, Cronfa Bensiwn Dyfed, wedi cael gwybod am hyn. Fe wnaeth Cronfa Bensiwn Dyfed godi pryderon ynghylch y llwyth gwaith sy'n codi wrth gyflawni cyfrifiadau â llaw, a cheisiwyd cael sicrwydd mai dim ond ar gyfer aelodau sydd wedi rhoi cadarnhad o'u hymddeoliad y byddai rhagolygon yn cael eu prosesu.

4.11 Mae aelodau presennol sydd o fewn cwmpas niwed uniongyrchol wedi derbyn neges bersonol ac wedi'u gwahodd i sesiwn ddiweddaru. Mewn ymgynghoriad â chydweithwyr yr FBU, mae sesiynau pellach ar y gweill.

4.12 Ar ôl derbyn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac IDF ar 08/10/21, y cam nesaf yw i'r Awdurdod fabwysiadu'r fframwaith. Fel y soniwyd eisoes, yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod, bydd manylion pellach am y fframwaith a'r camau a gymerir gan yr Awdurdod i weithredu'r fframwaith yn cael eu cyflwyno i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ei gyfarfod nesaf.

.

4.13 **Cytunodd cynrychiolwyr yr FBU i gyfleu'r neges i'w haelodau ynghylch peidio â gofyn am gyfrifiad os nad yw ymddeoliad wedi'i gadarnhau.**

4.14 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

5 Y RHEOLEIDDIWR PENSIYNAU – MODIWLAU 5, 6 A 7

5.1 Cyflwynodd y Rheolwr Pensiynau sesiwn hyfforddi ar y modiwlau canlynol:

- Darparu gwybodaeth i aelodau ac eraill
- Datrys anghydfodau mewnol
- Adrodd am fynd yn groes i'r gyfraith.

5.2 Atgoffwyd aelodau bod yn rhaid i bob aelod, yn unol â chylch gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol, gwblhau'r cwrs llawn o fewn chwe mis i ymuno â'r Bwrdd. Yn ogystal, argymhellodd a chytunodd yr aelodau yn ystod cyfarfod 2 Mai 2019 y byddai'r dysgu'n cael ei ailadrodd bob dwy flynedd. Felly, nod y cyflwyniad hwn oedd bodloni'r argymhelliad y cytunwyd arno drwy ddarparu crynodeb o fodiwlau 5, 6 a 7 y Rheoleiddiwr Pensiynau.

5.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 DIWEDDARIAD CRONFA BENSIWN DYFED (GWEINYDDWR Y CYNLLUN)

6.1 Cyflwynodd Martin Morgan ei adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am y meysydd canlynol:

- Diweddariad Rheoleiddio
- E-gyfathrebu
- Cymodi GMP
- Apeliadau
- Mynd yn Groes i'r Gyfraith
- Fy Mhensiynau Ar-lein
- Ansawdd data
- Llif gwaith.

6.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 BWRDD CYNGHORI'R CYNLLUN

7.1 Dywedodd PSTC MacArthur wrth yr aelodau nad oedd yr Uwch Dîm Arweinyddol wedi cyfarfod yn ddiweddar a bod y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 4 Tachwedd 2021.

8 COFRESTR RISG – MAES RISG 3 LLYWODRAETHU CYLLID

8.1 Atgoffwyd yr aelodau bod y Rheoleiddiwr Pensiynau'n argymell bod aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ystyried ac yn adolygu eu Cofrestr Risg yn ystod pob cyfarfod o'r Bwrdd. Cyflwynwyd y gofrestr risg ar gyfer llywodraethu cyllid yn y cyfarfod hwn.

8.2 Nodwyd mai'r risg fwyaf oedd cyllid Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfraniadau'r cyflogwr a'r diffyg sicrwydd y bydd ar gael bob blwyddyn. Roedd yr aelodau'n teimlo'n gyfforddus â'r gwaith sy'n cael ei wneud i reoli a pharhau i adolygu'r risg yma.

8.3 **PENDERFYNWYD nodi Maes Risg Llywodraethu Cyllid y Gofrestr ar gyfer 2021/22, ac y dylai unrhyw newidiadau neu ddiweddaraiadau gael eu cynnwys yn y gofrestr a'r ddogfen ddiwygiedig a gyhoeddwyd ar ddiwedd y flwyddyn ar wefan yr Awdurdod.**

9 MATERION I'W CYFEIRIO AT YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

9.1 Cynhelir cyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar 20 Rhagfyr. Cadarnhaodd PSTC MacArthur y bydd yr eitemau canlynol ar yr agenda:

- Gwelliannau IDRP
- Fframwaith Niwed Uniongyrchol Undeb y Brigadau Tân/CLlL

9.2 Cytunwyd nad oedd angen cyfeirio unrhyw faterion eraill at yr Awdurdod.

10 UNRHYW FUSNES ARALL

10.1 Dim.